# Croesfan i Gerddwyr Heol y Porth

Pecyn Ymgynghori



# Croesfan i Gerddwyr Heol y Porth

## Cyd-destun y Cynnig

### Lleoliad y Prosiect

Heol y Porth, rhwng Westgate House a Marlborough House yng nghyffiniau Stryd y Cei.


### Beth rydyn ni'n ei wneud?

Mae Cyngor Caerdydd yn datblygu cynigion ar gyfer croesfan newydd i gerddwyr ar Heol y Porth.

Bydd y groesfan barhaol hon yn cymryd lle'r groesfan dros dro i gerddwyr ar Heol y Porth, ger y gyffordd â Stryd y Cei.

### Pam mae angen hyn?

Cafodd y groesfan dros dro ei rhoi ar waith i gynorthwyo cerddwyr ar Heol y Porth ar ôl i'r brif groesfan y tu allan i'r maes parcio a mynedfa'r stadiwm gael ei ddatgomisiynu er mwyn caniatáu lle ychwanegol i safleoedd bysus a mannau llwytho cerbydau.




# Croesfan i Gerddwyr Heol y Porth

## Darluniad y Cynllun

Gwaredu'r groesfan dros dro i gerddwyr

Gosod y groesfan barhaol i gerddwyr

Gosod signalau traffig parhaol




*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Croesfan i Gerddwyr Heol y Porth

## Cwestiynau Cyffredin

### Sut y caiff y prosiect hwn ei ariannu?

Bydd arian o’r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn ariannu’r prosiect hwn.

### A fydd effaith ar fannau llwytho?

Ni fydd effaith ar y mannau llwytho sydd eisoes yno ac eithrio’r ardaloedd â llinellau igam-ogam sy’n agos at y groesfan. Cynghorir pob busnes i lwytho o'r mannau llwytho dynodedig ar y stryd.

### A fydd effaith ar y lôn fysus?

Ni fydd y cynllun hwn yn effeithio ar lonydd bysus.

### A fydd effaith ar y safleoedd bysus?

Ni fydd effaith ar safleoedd bysus.

### A fydd gan y groesfan signal clywadwy?

Gan fod y groesfan yn agos at gartrefi, ni fydd ganddi signal clywadwy.

### A fydd y groesfa yn effeithio ar draffig?

Ni fydd effaith ar lefelau traffig.

### Pam na ellir defnyddio'r arian i lenwi ceudyllau?

Mae'r Cyngor yn derbyn arian ar wahân i fynd i'r afael â materion cynnal a chadw.

# Croesfan i Gerddwyr Heol y Porth

## Sut I ymateb

**Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg hon: YMA**

Neu torrwch a gludwch yr URL canlynol: https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=166073242709

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.
Neu e-bostiwch gorllewincanolyddinas@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch i'r Tîm Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell Neuadd y Sir 301, Caerdydd, CF10 4UW

**Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 13/09/2022**

Caiff yr holl ymatebion eu hadolygu a'u defnyddio er mwynhelpu i ysgrifennu'r adroddiad ar yr ymgynghoriad sef un o'r dulliau a ddefnyddir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y cynllun. Gellir newid y cynllun enghreifftiol a ddangosir o ganlyniad i'r broses ddylunio fanwl, neu oherwydd adborth arall a gafwyd yn ystod y broses ymgysylltu neu ddylunio.

Bydd ymatebion i gwestiynau am y cynnig ar gael yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar-lein pan fydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth, gan ddewis y ddolen 'ymgynghoriadau' a dewis teitl y cynllun.

**Dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn fydd yn cael eu hystyried neu y gweithredir arnynt.**

**Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch I www.caerdydd.gov.uk**